
# Eglwysi a Chapeli Dinbych

# The Churches and Chapels of Denbigh

O gynllun dau-gorff Eglwys Santes Farchell i Foderniaeth Eglwys Sant Joseff, mae eglwysi Dinbych yn cwmpasu'r ystod lawn o adeiladau crefyddol Catholig ac Anglicanaidd o'r Oesoedd Canol i'r ugeinfed ganrif. Yn yr un modd, mae'r nifer mawr o gapeli, a'u maint, yn tystio i gryfder yr enwadau anghydffurfiol yn y dref.

From the double-nave plan of St Marcella's to the Modernist St Joseph's, the churches of Denbigh encompass the full spectrum of Catholic and Anglican church planning from the medieval period to the twentieth century. The large number and size of chapels correspondingly represent the strength of the nonconformist denominations in the town.





Chwith: Yr Annibynwyr oedd yr enwad anghydffurfiol cynharaf i ymsefydlu yn Ninbych. Mae ffasâd Capel Lon Swan yn dyddio o *c.*1875, ac mae'n enghraifft arbennig o dda o'r arddull Eidalaidd a ddefnyddid gan rai cynulleidfaoedd.

Left: The Independents were the earliest dissenting denomination to make their mark in Denbigh. The façade of Lon Swan chapel dates from *c.*1875, and is a particularly fine example of the Italianate style used by some congregations.

Isod: Mae llinellau glân corff Eglwys Santes Fair yn fodd i bwysleisio addurn cyfoethog y gangell a'r allor. Gohiriwyd cysegru'r eglwys am ddwy flynedd oherwydd dadlau ynghylch y reredos sy'n darlunio'r croeshoeliad.

Below: The clean lines of St Mary's nave serve to emphasise the rich decoration of the chancel and altar. Controversy over the reredos, depicting the crucifixion, delayed consecration for two years.





Uchod: Cafodd Capel Sant Hilary ei sefydlu gan Henry de Lacy yn y drydedd ganrif ar ddeg ac oherwydd ei lleoliad cyfleus hon oedd hoff eglwys pobl y dref. Dirywiodd yr adeilad tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chafodd ei ddymchwel yn y man.

Above: Established by Henry de Lacy in the thirteenth century, St Hilary's convenient location made it the preferred church for townspeople. Decline in the late nineteenth century led to eventual demolition.




Uchod: Roedd Eglwys Dewi Sant, a adeiladwyd gan Iarll Caerlŷr, yn un o'r cynlluniau adeiladu Protestannaidd mwyaf dylanwadol yn y wlad. Oherwydd prinder arian, ni chafodd yr eglwys uchelgeisiol hon byth mo'i gorffen.

Above: St David's, built by the Earl of Leicester, was one of the most influential Protestant building schemes in the country. Due to lack of funds, this ambitious church was never completed.




Cafodd Eglwys Sant Joseff ei chynllunio gan G. Parry Davies a'i Bartneriaid (1969) mewn arddull Modernaidd cryf. Mae ffenestri cul o wydr lliw haniaethol yn fframio un pen i du mewn yr adeilad, sydd fel arall yn hollol wyn.

G. Parry Davies and Associates designed St Joseph's (1969) in a strong Modernist style. Narrow lights of abstract stained glass frame one end of the otherwise plain white parallelogram that forms the interior.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk